# GWRYCHOEDD – nodwedd hanfodol o dirwedd Cymru

## Pam maen nhw'n bwysig?

Mae gwrychoedd yn hanfodol ar gyfer Bioamrywiaeth Cymru o fewn y dirwedd Amaethyddol, gan ddarparu llu o fuddion i bobl, bywyd gwyllt a da byw. Maen nhw'n darparu cysgod, mannau fforio a choridorau teithio ar gyfer ystod eang o rywogaethau bywyd gwyllt, megis adar, amffibiaid, ystlumod ac infertebratau. Maent hefyd yn casglu carbon ac yn hidlo llygryddion, darparu preifatrwydd, ac yn caniatáu i'n hamgylchedd weithredu ar ei orau.

***Gwasanaethau a ddarperir gan wrychoedd:***

- Bioamrywiaeth – Mae gwrychoedd yn darparu bwyd, mannau bridio a chysgod ar gyfer nifer o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid, o dda byw i'r 130 o rywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig yn agos â gwrychoedd.
- Rheoli'r hinsawdd – mae carbon yn cael ei storio o fewn biomas y gwrychoedd uwchben y ddaear, yn ogystal ag o fewn y pridd oddi tanynt. Gallai gwrych newydd storio 600 – 800kg o garbon y flwyddyn fesul 1,000m, am hyd at 20 mlynedd.
- Ansawdd dŵr – Gall gwrychoedd leihau faint o wrteithiau, plaladdwyr a dyddodion llygredig sy'n cyrraedd cyrsiau dŵr drwy weithredu fel rhwystr ffisegol, gan gynyddu ymdreiddiad i'r tir, ac wrth i'r coed, prysgwydd a phlanhigion eraill ailgylchu maetholion.
- Rheoli dŵr - lleihau faint o ddŵr a gollir drwy anweddiad mewn cnydau drwy leihau cyflymder y gwynt.
- Lleihau llifogydd – Gall gwrychoedd leihau llifogydd drwy gynyddu cyfradd ymdreiddiad dŵr drwy'r systemau gwreiddio ac arafu llif dŵr.
- Gall gwrychoedd gyda chloddiau reoli cyfradd llif dŵr o fewn dalgylchoedd, gan leihau pan mae llif ar ei fwyaf a chynyddu isafswm llif.
- Rheoli erydiad – Mae gwrychoedd yn atal colledion pridd o gaeau, trwy leihau erydiad gan y gwynt neu drwy weithredu fel rhwystr i atal pridd rhag cael ei olchi i ffwrdd gyda llif trostir.
- Rheoli plâu – Mae gwrychoedd yn hafan bwysig yn y gaeaf ar gyfer ysglyfaethwyr plâu cnydau, a cheir tystiolaeth o'u pwysigrwydd economaidd yn hynny o beth.
- Peillio – Mae gwrychoedd a llystyfiant ar waelod gwrychoedd yn darparu cysgod a llwybrau hedfan ar gyfer peillwyr cnydau megis cacwn, yn ogystal â ffynonellau neithdar a phaill hanfodol ar gyfer goroesiad peillwyr pan nad yw cnydau yn eu blodau.
- Ffiniau a rhwystrau – Mae gwrychoedd yn nodi ffiniau perchnogaeth tir ac yn hwyluso'r gwaith o reoli da byw. Mae ffiniau fferm cadarn yn fesur bioddiogelwch sy'n atal da byw o ffermydd cyfagos rhag cyffwrdd â'i gilydd.
- Diogelu da byw - Mae gwrychoedd yn darparu cysgod i dda byw rhag y gwynt a'r haul. Mae pwysigrwydd y rôl hon yn debygol o gynyddu gyda'r newid yn yr hinsawdd. Mae cyfradd marwoldeb da byw ar ffermydd heb gysgod yn uwch, ac maen nhw angen mwy o fwyd. Gall cysgod gynyddu cyfraddau byw ŵyn drwy leihau effaith oerfel gan y gwynt, ac felly hypothermia. Yn ystod misoedd yr haf, gall straen gwres leihau cynnyrch llaeth mewn buchesi llaeth.






Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

GARDDWRIAETH HORTICULTURE